# Lluoswch: Rhifedd ar gyfer Llwyddiant: Lefel 1/2 Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae'r cyrsiau rhifedd hyblyg hyn wedi'u hanelu at grwpiau bach o ddysgwyr sy'n oedolion nad oes ganddyn nhw gymhwyster rhifedd neu fathemateg lefel 2 ac sy'n bwriadu dychwelyd i addysg a / neu uwchsgilio i ymuno â'r farchnad gyflogaeth. Rydym yn rhagweld gweithio gyda grwpiau cymunedol bach neu unigolion. Gellir cynnal gwersi ar gampysau'r Coleg ar draws ardal CNPT, neu mewn canolfannau cymunedol lleol, llyfrgelloedd neu ganolfannau allgymorth ar draws ardal CNPT. Er bod myfyrwyr yn elwa'n fawr o ddarpariaeth a chymorth personol, bydd cyfleoedd y gellir eu teilwra i weddu i unigolion lle mae darpariaeth hybrid neu ar-lein yn fwy addas.
Bydd yr holl wersi yn cael eu cyflwyno gan arbenigwyr pwnc ac mewn sesiynau dan arweiniad athrawon.
I gyd-fynd â'r cyflwyniad, bydd dyfeisiau digidol addas yn cael eu darparu i'r myfyrwyr yn ystod y gwersi. Byddwn yn defnyddio'r rhain i ymgorffori'r defnydd o MathsWatch, sef llwyfan dysgu deallusol, rhyngweithiol, digidol. Mae fideos byr yn ymdrin â chynnwys, cwestiynau ymarfer a chwestiynau arddull arholiad sy'n gysylltiedig â manyleb TGAU CBAC. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau astudio annibynnol a llythrennedd digidol. Gall myfyrwyr ddefnyddio rhaglen MathsWatch gartref, i ailymweld, adolygu a chryfhau ymhellach eu dealltwriaeth o'r pynciau dan sylw. Gallant hefyd weithio ymlaen llaw a chynyddu gwybodaeth bynciol cyn y gwersi.
Gall myfyriwr sy'n cwblhau'r cwrs yn llawn ac asesiadau cymhwyster terfynol fod yn gymwys i dderbyn dyfais ddigidol i'w chadw.

## Gofynion Mynediad

Dim

## Rhagolygon Gyrfa

Mae sgiliau mathemateg Lefel 1/2 yn ofynion sylfaenol ar gyfer llawer o yrfaoedd.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno manyleb lefel 2 Sgiliau Hanfodol Cymru a bydd ar gael fel cwrs achrededig a heb ei achredu. Drwy gydol y cyflwyniad mae cyfleoedd lluosog i gyflawni unedau Agored Cymru ar lefel 1 neu 2. Bydd

yr unedau hyn yn helpu i feithrin hyder a sgiliau rhifedd a byddant yn gerrig camu llai ar hyd y ffordd tuag at ennill cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru.
Yr unedau sydd ar gael gan Agored Cymru fydd:
Lefel 1: Defnyddio cyfrifiadau, rhifau cyfan, ffracsiynau, degolion a chanrannau, (RB11CY015)
Ystadegau Lefel 1, (RB71CY004)
Rhif Lefel 2, (RB12CY036)
Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno am 3 awr yr wythnos dros gyfnod o 20 wythnos er mwyn cyflawni'r cymhwyster Sgiliau Hanfodol llawn. Fodd bynnag, gall myfyrwyr ymuno ar unrhyw adeg yn y cwrs i uwchsgilio eu rhifedd gydag unedau Agored Cymru.
Asesir unedau Agored Cymru drwy bortffolio a gwblheir yn y dosbarth gyda chefnogaeth eich darlithydd.
Mae asesiad y cymhwyster Sgiliau Hanfodol yn cynnwys tasg dan reolaeth lle bydd myfyrwyr yn cael cefnogaeth lawn a bydd y dasg yn cael ei chwblhau yn y dosbarth dros 5 awr. Mae yna hefyd asesiad amlddewis ar-lein sy'n cymryd dim ond 45 munud.
Gall y cwrs fod wedi'i achredu neu heb ei achredu a bydd tystysgrif y Coleg i gydnabod presenoldeb, cyflawniadau a chyfranogiad yn gysylltiedig â dadansoddiad o'r pynciau dan sylw.

## Asesiad

Asesir unedau Agored Cymru drwy bortffolio a gwblheir yn y dosbarth gyda chefnogaeth eich darlithydd.
Mae asesiad cymhwyster Lefel 1/2 Sgiliau Hanfodol Cymru: Rhifedd yn cynnwys tasg dan reolaeth lle bydd myfyrwyr yn cael eu cefnogi'n llawn, a bydd y dasg yn cael ei chwblhau yn y dosbarth dros 5 awr. Mae yna hefyd asesiad amlddewis ar-lein sy'n cymryd dim ond 45 munud.

## Costau Ychwanegol

Dim

### DULL ASTUDIO
PT

### LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

**HYD Y CWRS**

20W


Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre

0330 818 8100 enquiries@nptcgroup.ac.uk www.nptcgroup.ac.uk